# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 07 Hydref 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Yng nghyswllt y targedau ar gyfer ysgolion a bennir yn Dringo'n Uwch, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y gostyngiad posibl yn y gweithgareddau chwaraeon a fydd yn cael eu cynnal gan ysgolion yn sgîl Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. (WAQ44313)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y cynnydd sydd wedi ei wneud gyda gweithredu'r targedau ar gyfer cyfrannu at weithgareddau chwaraeon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a nodir yn Dringo'n Uwch, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol. (WAQ44314)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd ar yr A44 ym Mhontair. (WAQ44322)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ffyrdd yng nghymuned Nant Ddu ar yr A470 i'r de o Aberhonddu. (WAQ44323)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a buddsoddiad Grant Buddsoddi'r Cynulliad (AIG) yng Nghonwy. (WAQ44326)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu twristiaeth yn y Gogledd. (WAQ44327)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch datblygiad fferm wynt Gwynt y Môr a'i effaith ar etholaeth Conwy. (WAQ44328)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i Drenau Arriva Cymru. (WAQ44329)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae’r Gweinidog yn ei wneud i atal ysgolion pentref bach rhag cau yng Nghymru. (WAQ44319)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cost y polisi brecwast ysgol am ddim yn ôl y ffigurau diweddaraf. (WAQ44320)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ysgolion sydd wedi'u lleoli gerllaw peilonau trydan. (WAQ44330)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Nghymru. (WAQ44321)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud a achoswyd yr haint E-coli diweddar yng Nghymru gan fewnforion o gig eidion neu gan gig eidion o Brydain. (WAQ44317)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys. (WAQ44318)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella deintyddiaeth yng Nghonwy. (WAQ44324)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd yng Nghonwy. (WAQ44325)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad sydd wedi’i wneud gan y Gweinidog o effaith gymdeithasol casinos mawr yng Nghymru. (WAQ44315)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y bwriad i uno’r heddluoedd yng Nghymru. (WAQ44316)